north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU
## 12 Mehefin, 2020

**TEITL:** *Modelau Llywodraethu a Masnachol*

**AWDUR:** *Hedd Vaughan-Evans, Rheolwr Gweithrediadau*

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynghori Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y modelau ariannu a masnachol sydd ar gael drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru a'r materion y bydd angen eu hystyried.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Rhoi sylwadau ar y papur a nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud gan y Swyddfa Rhaglen, y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ac Swyddogion Cyllid partneriaid ar sut gellid defnyddio modelau masnachol ac ariannu gyda rhaglenni a phrosiectau, ac y bydd adroddiad pellach ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru maes o law.

### 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Bwrw ymlaen â gwaith ar fodelau masnachol ac ariannu fel rhan o'r pecyn o waith sydd ei angen i sicrhau 'Cynllun Terfynol' gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

### 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y rhaglen, mae angen cadarnhau pa fodelau masnachol ac ariannu y mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn dymuno'u defnyddio drwy'r Cynllun Twf. Bydd hyn yn hysbysu achosion Masnachol ac Ariannol pob achos busnes rhaglen a bydd hefyd yn siapio achosion busnes y prosiectau wedi hynny.

4.2. Er bod ymchwil wedi'i wneud i fodelau masnachol ac ariannu yn flaenorol, nid oes yr un penderfyniad wedi'i wneud ac mae angen sefydlu sut byddai unrhyw fodelau yn cael eu defnyddio gyda'r prosiectau.

4.3. Ar hyn o bryd, mae bwlch o £40miliwn yn y cyllid sydd wedi'i geisio gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru drwy'r cynllun twf. Mae modelau masnachol ac ariannu yn cyflwyno cyfle i fynd i'r afael â'r bwlch hwn drwy ailgylchu arian yn ôl i'r Cynllun Twf ar gyfer buddsoddiadau yn y dyfodol.

4.4 Mewn termau syml, mae tri model masnachol/ariannol posib ar gael ar gyfer cyllid y Cynllun Twf - grant, benthyciad neu fuddsoddiad neu gyfuniad:

- **Grant** - Darparu cyllid y cynllun twf fel grant na fyddai'n gweld unrhyw adenillion ariannol ar y buddsoddiad.

- **Benthyciad** - Gellid darparu cyllid y Cynllun Twf ar ffurf benthyciad neu ran-fenthyciad. Er enghraifft, fe wnaeth Rhanbarth Dinas Caerdydd gyhoeddi cynlluniau i datblygu Cronfa Eiddo Strategol yn ddiweddar, hyd at £50miliwn o bosib. Byddai hon yn gronfa fytholwyrdd, gyda thaliadau ar ffurf benthyciadau y mae'n rhaid eu had-dalu'n llawn, fel y gall barhau i droi'r buddsoddiadau a ddychwelir yn ôl i gynlluniau newydd yn y dyfodol.
- **Buddsoddiad** - Gellid darparu cyllid y Cynllun Twf fel buddsoddiad naill ai mewn asedau, ecwiti, IP neu o bosib drwy drefniant rhannu elw cytundebol. Bydd y cyfnod adenillion ar fuddsoddiad yn gwahaniaethu'n sylweddol ar draws y prosiectau. Er enghraifft, gellid cyflawni adenillion ar fuddsoddiad o ddatblygiad tai o fewn cyfnod o bum mlynedd ond gall buddsoddiad mewn IP gymryd llawer yn hwy i gyflawni adenillion.

4.5. Wrth ymchwilio i fodelau masnachol ac ariannu, bydd angen ystyried dosrannu'r costau benthyca ar draws y bartneriaeth hefyd, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y Gweithdy Llywodraethu ar 14 Chwefror, 2020.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Dim ar hyn o bryd.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Dim ar hyn o bryd.

**7. GOBLYGIADAU STAFFIO**

7.1. Dim ar hyn o bryd.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.1. Dim ar hyn o bryd.

**9. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

9.1. Trafodwyd cynnwys yr adroddiad hwn yn y Grŵp Cefnogaeth Weithredol ar 3 Mehefin, 2020.

---

**ATODIADAU:**

**Atodiad 1** Modelau Masnachol ac Ariannu

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Mae’r adroddiad yn rhoi tros olwg  o agwedd bwysig o ddatblygu y Rhaglenni a Prosiectau o fewn y Cynllun Twf. Fel y nodir mae’r ffrwd  gwaith yma angen ystyriaeth manwl ac arbenigol er sefydlu opsiynau ar y ffordd ymlaen.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Fel y nodir yn rhan 4.5 yr adroddiad, fe wnaeth y Gweithdy Llywodraethu ar 14 Chwefror edrych ar ddosrannu’r costau benthyca ar draws y bartneriaeth, tra bydd ystyriaethau ynghylch modelau masnachol ac ariannu bellach hefyd yn ystyried y potensial i ddarparu cyllid y cynllun twf ar ffurf benthyciad, neu ran-fenthyciad, ynghyd â’r opsiynau grant a buddsoddiad a ragwelwyd yn flaenorol.

Fel yr awgrymir yn rhan 4.2 yr adroddiad, gellid defnyddio modelau masnachol ac ariannu amrywiol ar gyfer y gwahanol brosiectau. Yn amlwg, bydd angen i’r gwaith ymchwil i ddatrysiadau i brosiectau unigol fod yn sensitif er mwyn cyflawni disgwyliadau’r partneriaid, a rhaid egluro hyn yn yr Achosion Busnes.

Fodd bynnag, rwy’n croesawu’r parodrwydd diragfarn i ystyried syniadau newydd megis benthyciadau, neu ran-fenthyciadau, a allai gynorthwyo’r Bwrdd Uchelgais i ymddwyn yn gydwybodol wrth fynd i’r afael â’r bwlch ariannu o £40miliwn a grybwyllir yn rhan 4.4 yr adroddiad.”

**Atodiad 1 - Modelau Masnachol ac Ariannu**

